| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **1 Mawrth 2012** |
| **TEITL :** | **Penodiadau i’r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS :** | **Cymeradwyo trefn penodi aelodau** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |

## 1. Cefndir

1.1 Mae naw aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef

- 5 ‘Aelod Annibynnol’ (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 ‘Aelod Pwyllgor Cymunedol’ sy’n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

## 2. Penodi Aelodau Annibynnol

2.1 Bydd tymor aelodaeth dau o’r Aelodau Annibynnol yn dod i ben ym mis Mai eleni. Mae’r ddau wedi bod yn aelodau o’r pwyllgor ers 2002 a chan y byddant wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol, nid fyddant yn gymwys i’w hail benodi.

2.2 Bydd rhaid i’r Cyngor felly hysbysebu am ddau aelod annibynnol newydd. O dan y ddeddfwriaeth berthnasol bydd rhaid hefyd sefydlu Panel Ymgynghorol i ystyried y ceisiadau. Bydd y Panel, ar ôl cynnal cyfweliadau, yn cyflwyno ei argymhellion i’r Cyngor Llawn, a fydd yn gwneud y penodiadau.

2.3 Yn unol â’r gofynion statudol rhaid i’r Panel gynnwys aelod o gyngor cymuned ac ‘Aelod Panel Lleyg’, sef person annibynnol heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â’r Pwyllgor na llywodraeth leol yn gyffredinol. Mae’r Panel yn y gorffennol hefyd wedi cynnwys tri aelod o’r Pwyllgor Safonau (yn cynnwys un aelod etholedig).

## 3. Penodi Aelodau Etholedig

3.1 Daw tymor aelodaeth y tri aelod etholedig o’r Pwyllgor i ben gyda’r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai eleni. Y drefn benodi a ddilynwyd yn y gorffennol oedd i mi ysgrifennu at bob aelod cymwys o’r Cyngor i wahodd ceisiadau. Cyflwynwyd y ceisiadau i’r Grŵp Busnes er mwyn iddo wneud argymhellion i’r Cyngor Llawn, sydd â’r hawl i wneud y penodiadau.

## 4. Penodi Aelod Pwyllgor Cymunedol

4.1 Daw tymor aelodaeth yr aelod hwn hefyd i ben gyda'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai eleni. Yn ddibynnol ar y sefyllfa ar ol yr etholiad, byddai modd ail-benodi'r aelod presennol, ond fel arall bydd rhaid gwahodd ceisiadau. Naill ffordd neu'r llall byddai'n rhaid yn gyntaf ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned ac unrhyw gymdeithas sy'n eu cynrychioli.

## 5. Meini Prawf

5.1 Penodir aelodau i'r Pwyllgor drwy ystyried y meini prawf sydd wedi eu sefydlu gan y Cyngor. Mae gosod y meini prawf hyn yn ofyniad statudol ac atodir copi ohonynt.

## 6. Argymhelliad

6.1 Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r Meini Prawf atodedig ar gyfer penodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau.

6.2 Gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i sefydlu Panel Ymgynghorol i ystyried ceisiadau i fod yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau pryd bynnag bydd lle gwag yn codi.

6.3 Gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at holl aelodau cymwys y Cyngor pryd bynnag bydd lle gwag yn codi ar y Pwyllgor Safonau i aelod etholedig, ac i gyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes.

6.4 Gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro sefydlu panel o blith aelodau'r Pwyllgor Safonau i ystyried ceisiadau i fod yn Aelod Pwyllgor Cymunedol pryd bynnag bydd angen penodi aelod newydd o'r fath.